**Yr e-weithdy cyfieithu bach**
**ar y lefelau Cyflawn a Sylfaenol, i'r Gymraeg ac i'r Saesneg**

**Chwefror a Mawrth 2021**

## Gwybodaeth gyffredinol

### Yr e-weithdy cyfieithu bach

Bwriad yr e-weithdy cyfieithu bach yw cynnig cyfle i chi ymarfer a gwella eich sgiliau cyfieithu yn eich amser eich hunan, ac o fewn amserlen a strwythur pendant. Cewch sylwadau ar eich cyfieithiadau gan diwtor sy'n gyfieithydd profiadol ac yn aelod o Gofrestr Marcwyr Arholiadau Aelodaeth Testun y Gymdeithas.

Yn yr e-weithdy cyfieithu bach:

- byddwch yn cyfieithu un darn yn unig;
- cewch wythnos i lunio'ch cyfieithiad;
- bydd y darn i'w gyfieithu o'r un hyd a safon â darnau'r arholiad perthnasol;
- bydd popeth yn digwydd trwy gyswllt e-bost yn unig.

Cynhelir dau e-weithdy cyfieithu bach ym misoedd Chwefror a Mawrth 2021. Mae dyddiadau'r ddau, gan gynnwys y dyddiadau olaf i gofrestru i'w gweld isod.

Gallwch gofrestru ar gyfer faint bynnag o'r rhain ag y dymunwch (a dim ond unwaith y bydd yn rhaid i chi lenwi'r ffurflen gofrestru!). Gosodir darnau gwahanol ym mhob e-weithdy cyfieithu bach.

Disgwylir i chi feddu ar sgiliau ieithyddol yn y Gymraeg a'r Saesneg sy'n cyfateb i ddisgwyliadau lefel yr e-weithdy cyfieithu bach yr ydych yn ei ddilyn.

Mae'r e-weithdy cyfieithu wedi profi ei hun i fod yn ddull effeithiol a phoblogaidd o ddysgu ac o gynnig hyfforddiant i bobl yn eu hamser eu hunain. Gallwch chi ddilyn yr e-weithdy cyfieithu bach fel rhan o'ch paratoadau at sefyll Arholiadau Aelodaeth y Gymdeithas, neu fel rhan o'ch datblygiad proffesiynol fel cyfieithydd. Beth bynnag fo'ch rheswm, bydd o gymorth i chi ddatblygu a mireinio'ch sgiliau cyfieithu a gloywi eich mynegiant, er mwyn sicrhau bod eich gwaith yn gwella'n barhaus.

### Trefn yr e-weithdy cyfieithu bach a'ch ymrwymiad chi

Dydd Mercher yw'r diwrnod allweddol yn achos yr e-weithdy cyfieithu bach. Bydd pob e-weithdy cyfieithu bach yn dechrau ar ddydd Mercher; cewch wythnos union i lunio'ch cyfieithiad; a bydd eich tiwtor yn anfon ei sylwadau atoch erbyn y dydd Mercher canlynol.

Gofynnir i chi ymrwymo i gadw at yr amserlen ac anfon eich gwaith at eich tiwtor erbyn y dydd Mercher. Yn yr un modd bydd eich tiwtor yn ymrwymo i anfon ei sylwadau ar eich cyfieithiad atoch o fewn yr wythnos.

Ar ddiwrnod cyntaf yr e-weithdy cyfieithu bach cewch e-bost a fydd yn cynnwys y canlynol:

- enw a manylion cyswllt eich tiwtor;
- y darn i'w gyfieithu;
- y cyfarwyddiadau a'r wybodaeth am yr e-weithdy cyfieithu bach;

**Dyddiadau'r e-weithdy cyfieithu bach**

**Yn dechrau ar 3 Chwefror 2021.**
Y dyddiad olaf i gofrestru fydd 29 Ionawr 2021.

**Yn dechrau ar 3 Mawrth 2021.**
Y dyddiad olaf i gofrestru fydd 26 Chwefror 2021.

- Ni fydd tiwtor yn marcio gwaith mwy nag 8 o ddysgwyr ar y tro. Fe'ch anogwn, felly, i gofrestru a thalu cyn gynted ag y gallwch, a pheidio gadael hi tan y funud olaf, gan mai'r cyntaf i'r felin fydd hi wrth neilltuo llefydd yn yr e-weithdy cyfieithu bach.

Bydd disgwyl i chi lynu at yr amserlen berthnasol. Nid yw'n fwriad gennym ganiatáu estyniad i neb. Mae'n bwysig, felly, eich bod chi'n cynllunio'ch amser a'ch gwaith ar gyfer yr wythnos sydd gennych i lunio'ch cyfieithiad.

**Cofrestru**

I gofrestru llenwch y ffurflen gofrestru. Yna, mae'n rhaid i chi e-bostio'r ffurflen ar ffurf 'Word' yn unig (ac nid ar ffurf 'pdf' nac unrhyw fformat arall) i: gweithdy@cyfieithwyr.cymru .

Peidiwch â phostio'r ffurflen gofrestru atom. Nid oes sicrwydd y bydd neb yn y swyddfa i agor llythyrau, felly, gall y bydd oedi anorfod cyn y gallwn ymateb i unrhyw beth a ddaw yn y post.

Cewch e-bost yn cydnabod ein bod wedi derbyn eich ffurflen gofrestru o fewn tri diwrnod gwaith i ni ei derbyn.

**Talu**

Bydd y taliadau cofrestru am un e-weithdy cyfieithu bach yn:

- £25.00 i aelodau'r Gymdeithas, yn ogystal â'r Cwmnïau Cydnabyddedig, y Sefydliadau Cydnabyddedig a Chyswllt, a'r Myfyrwyr Cyswllt.

- £30.00 i bawb arall.

Nid ychwanegir TAW at y taliadau hyn.

Rhaid i chi dalu wrth gofrestru. Ni fyddwn yn cofrestru neb ar gyfer yr e-weithdy cyfieithu bach oni chawn y tâl neu rif archeb gyda'r ffurflen gofrestru.

Fe fyddai'n well gennym pe baech yn talu trwy daliad electronig uniongyrchol yn hytrach na siec. Yn yr un modd fel ddylai sefydliadau e-bostio'u harcheb swyddogol yn hytrach na'i phostio.

Os bwriadwch ddilyn e-weithdy cyfieithu bach i'r Gymraeg ac i'r Saesneg ar yr un pryd, bydd hyn yn cyfrif fel dau e-weithdy cyfieithu bach.

**Y deilliannau dysgu**

Ar ddiwedd yr e-weithdy cyfieithu bach:

- bydd gennych well syniad o ofynion a disgwyliadau sefyll arholiadau'r Gymdeithas ar y lefel Gyflawn neu ar y lefel Sylfaenol;

- byddwch yn deall yn well yr hyn sydd ei angen arnoch i gyrraedd y safon ofynnol i lwyddo;

- byddwch wedi cael sylwadau gwrthrychol ar eich cyfieithu gan gyfieithydd proffesiynol a fydd o gymorth i chi wrth i chi ystyried sut i wella a datblygu'ch hun fel cyfieithydd.

Er gwybodaeth, ymysg y gwendidau a welir yn gyson yn yr arholiadau yw diffyg sylw manwl i union ystyr y gwreiddiol, yr angen i ymgeiswyr wirio'u gwaith yn ofalus er mwyn sicrhau eu bod yn cyflwyno sgript oedd yn cyfleu'r neges gywir, a chyfieithiadau nad oeddynt yn darllen yn naturiol yn yr iaith darged.

**Arholiadau Aelodaeth Testun y Gymdeithas yn 2021**

Ein bwriad a'n gobaith yw cynnal yr arholiadau yn ôl yr arfer yn 2021 yn y canolfannau arholi arferol – Aberystwyth, Caerdydd a Glynllifon.

Gwneir cyhoeddiad ynghylch arholiadau mis Ebrill 2021 ar 1 Chwefror 2021.